OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 Rhif 1899 (Cy.181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gynnwys cwricwlwm sylfaenol. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn yn diwygio is-adran (1) drwy ychwanegu gofynion pellach.

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir o dan is-adran (3), yn diwygio'r gofynion i ddarparu addysg gysylltiedig â gwaith (a ychwanegwyd at y cwricwlwm sylfaenol gan Orchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/932 (Cy.122))) drwy ymestyn yr amrediad oed er mwyn iddo fod hefyd yn gymwys i'r disgyblion hynny sydd yn y trydydd cyfnod allweddol.

O ran y cyfnodau allweddol cyntaf, ail a thrydedd o addysg disgybl, mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y pynciau craidd a phynciau sylfaen eraill a bennir yn adran 105 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r pynciau sylfaen eraill hynny.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn hepgor y pynciau "technoleg" a "celfyddyd" ac yn gosod yn eu lle "technoleg gwybodaeth a chyfathrebu", "dylunio a thechnoleg" a "celfyddyd a dylunio".

# 2008 No. 1899 (W.181)

# EDUCATION, WALES

## The School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 101(1) of the Education Act 2002 requires the curriculum for every maintained school in Wales to include a basic curriculum. Subsection (3) enables the Welsh Ministers to make an Order amending subsection (1) by adding further requirements.

This Order, which is made under subsection (3), amends the requirements to provide work-related education (added to the basic curriculum by the Basic Curriculum for Wales (Amendment) Order 2003 (S.I. 2003/932 (W.122))) by extending the age range so that it also applies to those pupils in the third key stage.

For the first, second and third key stages of a pupil's education, the National Curriculum for Wales comprises the core and other foundation subjects specified in section 105 of the Education Act 2002. This Order amends those other foundation subjects.

The amendments made by this Order omit the "technology" and "art" subjects and replace them with "information and communication technology", "design and technology" and "art and design".

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 1899 (Cy.181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008

*Gwnaed* — *16 Gorffennaf 2008*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* — *4 Mehefin 2008*

*Yn dod i rym* — *1 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 101(3)(a), 105(6), 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11), a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

Yn unol ag adran 117 o Ddeddf Addysg 2002, i'r graddau y gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau yn adran 105(6) o'r Ddeddf honno, gwnaeth Gweinidogion Cymru y fath drefniadau ag a ystyrient yn briodol ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r cynigion;

Yn unol ag adran 210(3) o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2)o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**)) cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(**1**) 2002 p.32

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2006 p.32. At ddibenion paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y "swyddogaeth gyfatebol" i Weinidog y Goron mewn perthynas â Lloegr yw'r swyddogaeth a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 80(3)(a), 84(6) ac 87 o Ddeddf Addysg 2002.

.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1899 (W.181)

# EDUCATION, WALES

## The School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008

*Made* — *16 July 2008*

*Laid before the National Assembly for Wales* — *4 June 2008*

*Coming into force* — *1 August 2008*

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 101(3)(a), 105(6), 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) and (11), and 210(7) of the Education Act 2002(**1**) and now vested in them(**2**);

In accordance with section 117 of the Education Act 2002, so far as this Order is made in exercise of the powers in section 105(6) of that Act, the Welsh Ministers made arrangements for consultation about the proposals as they considered appropriate;

In accordance with section 210(3) of the Education Act 2002 (as applied by paragraph 34(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006(**3**)) a draft of this Order was laid before the National Assembly for Wales and approved by a resolution of the National Assembly.

(**1**) 2002 c.32.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) 2006 c. 32. For the purposes of paragraph 34 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, the "corresponding function" of a Minister of the Crown in relation to England is the function conferred upon the Secretary of State by sections 80(3)(a), 84(6) and 87 of the Education Act 2002.

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008 a daw i rym ar 1 Awst 2008.

**Diwygiadau i adran 101(1)(bb) o Ddeddf Addysg 2002**

**2**.—(1) Yn Adran 101(1)(bb) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn lle "during the fourth key stage" rhodder y geiriau "during the third and fourth key stages".

**Diwygio Adran 105(3) o Ddeddf Addysg 2002**

**3**. Diwygir Adran 105(3) o Ddeddf Addysg 2002 fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (a), cyn "technology" mewnosoder "design and";

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder "(aa) information and communication technology,",

(c) ym mharagraff (e), ar ôl "art" mewnosoder "and design".

**Diwygiadau i Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005**

**4**.—(1) Diwygier Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**2**) yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn y diffiniad o "y pynciau sylfaen eraill" ("*the other foundation subjects*") yn erthygl 3(1)—

(a) dileer y gair "technoleg" a rhodder yn ei le y geiriau "dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu,"; a

(b) ar ôl y gair "celfyddyd" mewnosoder y geiriau "a dylunio".

(3) Yn erthygl 7(1) ar ôl y gair "celfyddyd" mewnosoder y geiriau "a dylunio, dylunio a thechnoleg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu".

(4) Dileer erthygl 7(2).

(**1**) Mewnosodwyd gan erthygl 2(1) a (3) o O.S. 2003/932 (Cy.122).

(**2**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108).

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008 and it comes into force on 1 August 2008.

**Amendments to section 101(1)(bb) of the Education Act 2002**

**2**.—(1)In Section 101(1)(bb) of the Education Act 2002(**1**) for "during the fourth key stage" substitute "during the third and fourth key stages".

**Amendment of Section 105(3) of the Education Act 2002**

**3**. Section 105(3) of the Education Act 2002 is amended as follows —

(a) in paragraph (a), before "technology" insert "design and";

(b) after paragraph (a) insert "(aa) information and communication technology,";

(c) in paragraph (e), after "art" insert "and design".

**Amendments to the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005**

**4**.—(1) The National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005(**2**) is amended in accordance with this article.

(2) In the definition of "the other foundation subjects" ("*y pynciau sylfaen eraill*") in article 3(1) —

(a) before the word "technology" insert "design and technology, information and communication"; and

(b) after the word "art" insert "and design".

(3) In article 7(1) after the word "art" insert "and design, design and technology and information and communication technology".

(4) Delete article 7(2).

(**1**) Inserted by article 2(1) and (3) of S.I. 2003/932 (W.122).

(**2**) S.I. 2005/1394 (W.108).

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers.

16 Gorffennaf 2008

16 July 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

© Crown copyright 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W356/08/08 ON